

Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd

**30 Ionawr 2020
10:00am – 12:00pm**

Neuadd Gymuned Llansawel

Yn bresennol

Aelodau'r Tasglu

James Davies, Diwydiant Cymru (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Andrew Morgan, Arweinydd Rhondda Cynon Taf
Joshua Miles, Ffederasiwn Busnesau Bach
Wendy Walters, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin
Nicola Somerville – Dinas-ranbarth Caerdydd
Akmal Hanuk – Sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol Asaadaqaat Community Finance
Derek James, Cadeirydd yr Is-grŵp Tai a Swyddog RhCT

Aelodau Bwrdd y Rhaglen

Rhodri Griffiths, Prif Swyddog Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

Tîm Tasglu'r Cymoedd

Sarah King, Arweinydd Prosiect Tasglu'r Cymoedd
Nicola Leadbeater, Rheolwr Rhaglen Tasglu'r Cymoedd

Arsylwyr

David Rees – Aelod Cynulliad, Aberafan
Christina Rees – Aelod Seneddol Castell-nedd

Ymddiheuriadau

Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AC (Cadeirydd)
Ruth Treharne, Bwrdd Iechyd Cwm Taf
Dawn Bowden AC, Merthyr Tudful a Rhymni
Maureen Howell, Cydraddoldeb a Ffyniant – Dirprwy Gyfarwyddwr
John Howells, Uwch-swyddog Cyfrifol Tasglu'r Cymoedd
David Rosser, Prif Swyddog Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru

Siaradwyr

Victoria Winckler, Sefydliad Bevan
Helen Cunningham, Sefydliad Bevan

Eitem 1: Croeso a chyflwyniadau.

1. Agorodd James Davies (JD) y cyfarfod ac fe gyflwynodd ymddiheuriadau gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth. Croesawodd yr aelod newydd, Akmal Hanuk (AH), a fydd yn cadeirio'r is-grŵp Entrepreneuriaeth a chymorth busnes newydd, yn ogystal â David Rees AC (DR) a Christina Rees AS (CR) a wahoddwyd i fod yn bresennol fel arsylwyr.

Eitem 2: Trefi angori

1. Amlinellodd Victoria Winckler (VW) a Helen Cunningham (HC) y negeseuon allweddol o'u hadroddiad ar drefi angori gan dynnu sylw at rai o'r materion/heriau gyda'r cysyniad hwn a'r cysylltiad â thasglu'r Cymoedd.
2. Teimlai VW nad oedd y canolfannau strategol fel a ragwelwyd gan Sefydliad Bevan yn y dechrau, ac y byddai trefi angori yn adeiladu arnynt ac yn cynnwys mwy o'r elfen economi sylfaenol.
3. Rhedodd HC drwy rai o nodweddion allweddol trefi angori a oedd wedi'u manylu yn y papur. Byddai dewis pa drefi yn broblemus.
4. Holodd Josh Miles (JM) am statws presennol y canolfannau strategol a chadarnhawyd y byddai adolygiad o'r gwaith a wnaed hyd yma ar ganolfannau strategol yn cael ei gynnal yn fuan.
5. Holodd Andrew Morgan (AM) y cyllid TRI a ble roedd yn cael ei gyfeirio. Angen cefnogi busnesau yn yr ardaloedd lleol a rhwystro pobl leol rhag gorfod teithio i rywle arall i gael gwaith.
6. Gofynnodd Christina Rees (CR) a oedd y newidiadau demograffig/poblogaeth newidiol yn yr ardal yn cael eu hystyried gyda phobl ifanc yn symud i ffwrdd i fynd i'r brifysgol a dod o hyd i swyddi. Dywedodd VW fod Sefydliad Bevan yn ymwybodol iawn o'r newid ym mhoblogaeth Cymru gyfan, ond bod angen mwy o fuddsoddiad ar y Cymoedd yn arbennig er mwyn osgoi dirywiad pellach.
7. Cadarnhaodd VW fod Sefydliad Bevan yn ymwybodol iawn mai trafndiaeth yw un o'r problemau mwyaf o hyd. Mae'n rhaid i ran fawr o gysyniad Trefi Angori fod ar wella gwasanaethau cyhoeddus.
8. Roedd Akmal Hanuk (AH) yn teimlo bod egwyddor Trefi Angori yn un dda ac yn cyfrannu at nodau'r Tasglu. Does dim modd aros i gyflogwyr ddoed i mewn a buddsoddi, bydd yn cymryd llawer o amser, gallai pethau allweddol llai/is fod yn ddefnyddiol.

CAM GWEITHREDU 1 – Tîm y Tasglu i anfon papur Bennett at yr Aelodau.

9. Pwysleisiodd DR fod pawb am fywiogi eu hetholaethau, ond bod angen newid meddylfryd. Roedd angen sicrhau bod y trefi bach iawn, sydd â phoblogaeth fechan, hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u cysylltu.

CAM GWEITHREDU 2 – gwahodd AH i gyfarfodydd ar ganolfannau strategol w/c 3/2/20.

Eitem 3: Trafodaeth is-grŵp

Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynghylch yr is-grwpiau, ac roedd y pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

Yr Economi Sylfaenol

10. Dylai PSB gael eu hannog i gymryd rhan mewn cyllid yr Economi Sylfaenol a dylai'r is-grŵp hwn sicrhau ei fod yn cysylltu ag eraill.
11. Teimlai JD y gallai llawer o fusnesau canolig fod angen eu mentora neu fod heb fawr o gynllunio ar gyfer olyniaeth gyda phryderon ynghylch cymryd y cam nesaf. Roedd RG yn gweithio law yn llaw â Busnes Cymru a DBW yn y gorllewin. Roedd llawer o gwmnïau yn y ganolfan mentrau cymdeithasol megis cwmnïau cyfyngedig gyda dibenion cymdeithasol. Cytunwyd y byddai angen ymgysylltu â hwy.

Trafnidiaeth

12. Rhoddodd SK drosolwg o'r gweithgarwch hyd yma yn yr is-grŵp trafndiaeth. Roedd AH yn teimlo bod hwn yn sector da i gael pobl i gymryd rhan ynddo. Cyfle i

rannu perchenogaeth o gysyniad newydd gyda phobl leol i'r ardal – maent yn cymryd rhan ac ei berchnogi. O safbwynt entrepreneuriaidd, gellid cael cyfle i ddenu rhai pobl i ddechrau cynnig syniadau. Cadarnhaodd SK fod elfen o hynny eisoes yn y prosiectau peilot gyda chynlluniau ceir cymunedol yn cael eu darparu fel enghraifft-mae llawer ohonynt yn fentrau cymunedol.

Tai

13. Darparwyd trosolwg o'r papur diweddarau Tai. Mae AM wedi bod yn annog arweinwyr cynghorau i ymrwymo i gam 2.
14. Teimlai aelodau fod angen mwy o farchnata ar y ffrwd waith tai er mwyn rhoi gwybod i bobl ei fod yn digwydd a bod y defnydd o gadwyn gyflenwi leol yn cael ei annog.

Entrepreneuriaid a Chymorth Busnes

15. Mae AH yn y broses o drefnu ei is-grŵp. Hoffai gynnwys pobl ifanc o'r Cymoedd yn ogystal, i edrych yn ofalus ar eu materion a ble maen nhw'n gweld heriau.
16. Byddai datblygu sgiliau hefyd yn bwysig, gan feithrin a chynorthwyo pobl i ddechrau'n lleol.
17. Fe wnaeth WW annog AH i edrych ar yr wybodaeth a gasglwyd eisoes gan fod digon i ddechrau.

Canolfannau Strategol

18. Roedd y rhan fwyaf o'r LGA's wedi ymateb i gais JD am wybodaeth, a byddai'n cyfarfod â phob un ohonynt yn ystod yr wythnos nesaf gyda'r bwriad o wneud rhai penderfyniadau ynghylch y cynlluniau ar gyfer canolfannau strategol yn fuan.

Eitem 4: Unrhyw fater arall

19. Roedd y grŵp cyfan o'r farn bod angen mwy o ddefnydd o "frand y Cymoedd" mewn ffilmiau/hysbysebion cyhoeddus sy'n cael eu cyhoeddi yn lleol ac yn rhyngwladol.
20. Teimlwyd ein bod yn colli cyfleoedd mawr i gynyddu twristiaeth a hoffem weld y mater hwn yn cael ei drafod yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU 3 – Cynnwys cyfathrebu a marchnata ar agenda yn y dyfodol

Eitem 5: Cloi

21. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 12 Mawrth, 10:00-12:00.